# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**Dyddiad:** 15 Chwefror 2011
**Amser:** 10:00- 10:45
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor, Senedd
**Teitl:** Adroddiad y Prif Weinidog

## 1. DIBEN

Darparwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i wahoddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor i gyflwyno gwybodaeth am ddatblygiadau'r UE a materion rhyngwladol eraill sy'n berthnasol i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau rhyngwladol ers iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2010.

## 2. ARGYMHELLIAD

Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## 3. GWEITHGAREDDAU RHYNGWLADOL

- **26 Tachwedd 2010 – Ymweliad Ei Ardderchowgrwydd Dr Emil Brix, Llysgennad Austrian Awstria a Georg Karabaczek, Comisiynydd Masnach a Chynghorydd Masnach**

  Dyma ymweliad cyntaf y Llysgennad, a benodwyd ym mis Ebrill 2010, ac roedd yn bleser cael cyfle i gwrdd ag ef am y tro cyntaf. Roedd rhaglen ymweliad y Llysgennad a'r Comisiynydd Masnach hefyd yn cynnwys ymweliadau i Brifysgol Abertawe ac Ysgol Bro Helyg. Rhoddodd y Llysgennad gyflwyniad i Gymdeithas Caerdydd-Stuttgart a rhoddodd y Comisiynydd Masnach gyflwyniad i Gwmnïau yng Nghymru ar sectorau tai cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy yn Awstria.

- **30 Tachwedd 2010 – Derbyniad gyda'r nos gyda Chynrychiolwyr Tîm Olympaidd Rwsia**

  Mynychais dderbyniad gyda'r nos a gynhaliwyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chyngor Sir Caerdydd i ddirprwyaeth o Bwyllgor Olympaidd Rwsia a oedd yn ymweld â Chymru i ymweld â'r cyfleusterau hyfforddi cyn Gemau Olympaidd Llundain 2012. Mae'r ymweliad hwn yn rhan o'n hymdrechion i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf â'r Gemau er mwyn sicrhau etifeddiaeth gofiadwy ac ysbrydoledig ar draws ein gwlad. Mae

hyfforddiant cyn y Gemau'n darparu cyfle i godi proffil y Gemau yng Nghymru a phroffil Cymru yn y byd drwy berthnasau chwaraeon, diwylliannol ac economaidd gyda'r gwledydd hynny sy'n ymweld â Chymru.

- **8 Rhagfyr 2010 - Cyfarfod gyda'I Ardderchowgrwydd Eduardo Medina-Mora, Llysgennad Mecsico i'r DU**

  Hwn oedd ymweliad cyntaf y Llysgennad i Gymru a chefais gyfle i gwrdd ag ef, croesawu'r cysylltiadau sydd gennym gyda Mecsico a thrafod cyfleoedd i gydweithio.

- **8 Rhagfyr 2010 - Cyfarfod gyda'I Ardderchowgrwydd Yuri O. Thamrin, Llysgennad Gweriniaeth Indonesia**

  Cefais gyfle i gwrdd â Llysgennad Indonesia yn ystod ei ymweliad swyddogol cyntaf i Gymru. Roedd y Llysgennad yn awyddus i sôn am ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn Indonesia, a'i photensial gwleidyddol, economaidd a diwylliannol.

- **10 Ionawr 2011 – Cyfarfod gyda Derek Vaughan a Jill Evans, ASE**

  Cefais gyfarfod gyda dau o'n pedwar ASE Cymreig. Cefais gyfle yn y cyfarfod i ddiolch iddynt am eu gwaith yn cynrychioli Cymru yn yr UE a thrafod y posibiliadau ar gyfer y trafodaethau a fydd yn cael eu cynnal ar gyllideb yr UE, y Polisi Cydlyniant a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

- **25 Ionawr 2011 – Lansio Arddangosfa Cerrig Dazu**

  Roedd yn bleser cael annerch yn agoriad Arddangosfa Cerfiadau Cerrig Dazu yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Dyma'r tro cyntaf i'r cerfiadau hynafol hyn, sy'n dyddio o'r 7$^{fed}$ ganrif O.C. adael Tsieina a byddant yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa Genedlaethol tan fis Ebrill. Daw'r cerrig hyn o Chongqing, ac mae gennym berthynas gref â'r ardal hon, a arweiniodd at yr arddangosfa hon yng Nghymru.

- **31 Ionawr 2011 – Pumed Fforwm Cydlyniant - "Buddsoddi yn Nyfodol Ewrop: strategaeth datblygu rhanbarthol ar gyfer 2020"**

  Cefais gyfle i annerch y Fforwm Cydlyniant ym Mrwsel ac roedd yn bleser derbyn "Gwobr Rhanbarthau Rhagoriaeth" fel cydnabyddiaeth am y ffordd mae Cymru wedi rheoli cronfeydd strwythuredig. Mae adroddiad mwy cynhwysfawr ar fy ymweliad i'r fforwm wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

- **7 Chwefror 2011 – Cyfarfod gyda'I Uchelder Brenhinol Y Tywysog Seeiso, Uwch Gomisiynydd Lesotho**

  Pan baratowyd yr adroddiad hwn, nid oedd y cyfarfod hwn wedi'i gynnal. Byddaf yn darparu adroddiad llafar yng nghyfarfod y Pwyllgor os bydd angen.

# 4. DATBLYGIADAU'R UE

## CYLLIDEB YR UE

Ym mis Mehefin 2011, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno ei gynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd (MAFF) neu'r persbectif ariannol fel y'i gelwir. Mae'r MAFF yn pennu uchafswm nifer y dyraniadau ymrwymiad yng nghyllideb yr UE bob blwyddyn ar gyfer meysydd polisi cyffredinol ac mae'n gosod uchafswm blynyddol cyffredinol ar ddyraniadau taliadau ac ymrwymiad. Mae'n debygol y bydd yna nifer fawr o drafodaethau a bargeinio yn ystod y misoedd i ddod rhwng y Cyngor, y Comisiwn a'r Senedd Ewropeaidd. Mae hanes wedi dangos bod y trafodaethau hyn yn aml yn mynd i'r pen eithaf ac yn arwain at gyfaddawdu gwleidyddol ar hyd y daith. Bydd cyfranogiad y Senedd Ewropeaidd yn gwneud y trafodaethau'n fwy cymhleth byth.

Mae Llywodraeth y DU o'r farn y dylid lleihau cyllideb yr UE a bod y Polisi Cydlyniant a'r CAP yn ormod o faich. Er bod barn y DU ar hyn wedi bod yn ynysig yn y gorffennol, mae'r sefyllfa ariannol ddomestig ar draws Ewrop a'r cyfraniadau ariannol mawr sydd eu hangen i gefnogi gwledydd sy'n methu yn Ardal yr Ewro yn golygu y bydd mwy o Aelod-wladwriaethau'n dechrau uniaethu â barn y DU.

Yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Hydref cafwyd anghydfod ynglŷn â chyllideb yr UE ar gyfer 2011 sydd, ym marn nifer o bobl, yn gychwyn i'r frwydr am safbwynt ar MAFF. Roedd rhai aelod-wladwriaethau'n gwrthwynebu'r cynnydd arfaethedig o 5.8% i gyllideb 2011. Yr oedd y Senedd Ewropeaidd ond yn barod i gytuno yn gyfnewid am fwy o lais yn nhrafodaethau MAFF. Bu'n rhaid iddo ildio yn y diwedd am na allai atal cynnydd llai o lawer. Cyfeiriodd Casgliadau ategol y Cyngor at yr angen i MAFF adlewyrchu mesurau llymder ariannol a gyflwynwyd o fewn aelod-wladwriaethau.

Yn ogystal, ar ymylon cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr llofnododd Prif Weinidogion y DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a'r Ffindir lythyr yn galw am rewi cyllideb tymor hwy'r UE ar lefelau 2013.

Yr hyn sy'n peri pryder i Gymru yw y bydd Cyllideb is yr UE yn cael effaith ar y swm o arian a fydd ar gael ar gyfer dau brif faes gwariant yr UE sef y polisi Cydlyniant a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

## POLISI CYDLYNIANT

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar gasgliadau'r 5ed Adroddiad Cydlyniant sy'n cyflwyno syniadau ar gyfer Polisi Cydlyniant o 2014. Ysgrifennais at y Comisiynydd Hahn yn croesawu'r rhan fwyaf o gynnwys yr adroddiad ond yn mynegi pryderon ar rai agweddau. Fel y trafodwyd yn flaenorol gyda'r Pwyllgor, dim ond cynigion cyffredinol a geir yn yr Adroddiad ar gyfer dyfodol y polisi felly edrychwn ymlaen at dderbyn cynigion mwy manwl gan y Comisiwn yn ystod yr haf.

Daeth yr Ymgynghoriad i ben gyda'r Pumed Fforwm Cydlyniant ym Mrwsel. Cynhaliodd y Comisiynwyr Hahn ac Andor ddigwyddiad i tua 800 o gynrychiolwyr o sefydliadau'r UE, aelod-wladwriaethau, rhanbarthau, llywodraeth leol a Chyrff Anllywodraethol – gyda phob un yn mynegi barn ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant.

Roeddwn yn bleser gennyf dderbyn gwobr glodfawr **'Rhanbarthau Rhagoriaeth'** am lwyddiant Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth ei phartneriaid, i gyflwyno ei pholisïau, rhaglenni a phrosiectau yn unol â strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Roedd Cymru'n un o dri rhanbarth yn unig a dderbyniodd y wobr sy'n gydnabyddiaeth bellach o'n prosesau llwyddiannus i reoli cronfeydd strwythurol yr UE.

Fel rhan o'r Fforwm anerchais weithdy a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Potocňik ar dwf cynaliadwy. Cefais gyfle hefyd pan oeddwn ym Mrwsel i gwrdd â Syr Kim Darroch, Cynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE a Danuta Hübner, cyn Gomisiynydd Gwlad Pwyl sydd bellach yn Gadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol y Senedd Ewropeaidd.

## DYFODOL Y POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN

Bydd rownd nesaf Diwygio CAP yn cael ei weithredu o 2014. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y Comisiwn ar gyfer diwygio wedi dod i ben erbyn hyn ac nid ydym yn disgwyl cynigion deddfwriaethol llawn tan fis Gorffennaf. Mae dadleuon cyhoeddus sylweddol a gynhaliwyd yn ystod haf 2010 wedi dylanwadu'n gryf ar y cynigion, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad ar-lein a chynhadledd ym mis Gorffennaf. Mae'r Senedd Ewropeaidd wedi rhoi amlinelliad o'i blaenoriaethau ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn nogfen y Comisiwn.

**Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fod yn ymrwymedig i CAP sy'n darparu cymorth incwm i ffermwyr; sy'n cynnal cynhyrchiant bwyd ac sy'n parhau i gefnogi camau rheoli tir cynaliadwy.**

Mae'n anodd, ar hyn o bryd, i fabwysiadu safiad cadarn ar y cynigion penodol oherwydd nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn yn cynnwys unrhyw fanylion. Gellir dweud bod y cyfeiriad yn 'datblygu' yn hytrach nac yn broses radical o ddiwygio CAP a byddai hyn yn ymyrryd llai ar fyd ffermio, yr economi wledig a'r amgylchedd.

Mae yna nifer o feysydd sy'n peri pryder yn cynnwys Colofn 1 mwy 'gwyrdd' a chymhleth lle mae'n anodd gweld unrhyw fuddiannau gwirioneddol a byddai'n tynnu'n groes i'r agenda symleiddio yng Nghymru a'r UE. Bydd capio taliadau i ffermwyr mwy a thargedu taliadau i ffermwyr gweithredol yn cael ei gefnogi mewn egwyddor, ond byddai'n broses gymhleth i'w diffinio, ei gweithredu a'i rheoli.

Mae newid y Taliad Sengl o fodel sy'n seiliedig ar hanes i fodel mwy unffurf, sy'n seiliedig ar ardal yn ymddangos yn anochel ac yn synhwyrol ond mae ein

dadansoddiad ni o effaith yn awgrymu proses arwyddocaol o ailddosbarthu taliadau oni fydd cyfnod pontio hir.

Fe wnaethom ddatgysylltu taliadau cymorth yn llwyr yn 2005 ac ni fyddem yn fodlon gweld cymorth cysylltiedig yn parhau mewn Aelod-wladwriaethau eraill. Byddai cynigion a fyddai'n caniatáu taliadau ar gyfer sectorau a rhanbarthau penodol (gyda chyfyngiadau naturiol penodol) ond yn bosibl drwy frigdorri taliadau Colofn 1 ac mae'r dull gweithredu hwn wedi'i wrthod yn y gorffennol gan ffermwyr Cymru.

Dylai cynigion Colofn 2 ar ddatblygu gwledig ein galluogi i ddatblygu'r gwaith presennol er mwyn gwella natur gystadleuol amaethyddiaeth a choedwigaeth; rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy; galluogi proses rymuso leol a chreu capasiti mewn ardaloedd gwledig. Byddai mwy o bwyslais ar arloesedd a strwythur 'echel' llai caeth yn datblygu enillion economaidd ac amgylcheddol trawsbynciol.

Mae'r trefniadau ariannu Cynllunio Datblygu Gwledig presennol yn golygu bod Cymru a'r DU o dan anfantais sylweddol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gorfod neilltuo ei hadnoddau ei hun ar gyfer ariannu 75% o'r gyllideb Cynllunio Datblygu Gwledig. Mae modiwleiddio drwy frigdorri derbyniadau Taliad Sengl hefyd wedi bod yn hanfodol. Mae ein hymrwymiad ariannol domestig yn gwbl anghymesur wrth wneud cymariaethau â'r 27 o aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Mae'n siomedig nad yw dogfennaeth gyhoeddus y Comisiwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bron ar ddulliau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r annhegwch hwn a hefyd ar ddyfodol modiwleiddio.

## MESUR YR UNDEB EWROPEAIDD (UE)

Ar 11 Ionawr 2011 cyflwynwyd Mesur yr UE ar gyfer y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Diben Mesur yr UE yw atgyfnerthu gweithdrefnau'r DU ar gyfer cytuno neu gadarnhau rhai o benderfyniadau'r UE a newidiadau i Gytuniadau. Prif ddarpariaethau'r Mesur yw:

- Y 'clo refferendwm' sy'n golygu, os gwneir unrhyw newidiadau yn y dyfodol i gytuniadau presennol yr UE neu os caiff unrhyw bwerau ychwanegol eu trosglwyddo i'r UE, y bydd angen i'r Llywodraeth ofyn am ganiatâd pobl Prydain mewn refferendwm.

- Y gofyniad i'r Llywodraeth basio deddfwriaeth sylfaenol cyn y gall roi cytundeb terfynol i'r defnydd o is-gymalau pontio neu 'passerelles' yn y Cytuniadau presennol.

- Mae Is-Gymal 18 y Mesur yn cwmpasu statws cyfreithiau'r UE ac yn datgan yn glir, mai'r Senedd sydd oruchaf yn y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fyddai'r Mesur yn arwain at refferendwm ar Aelodaeth yr UE nac ar Gytuniad Lisbon. Ac ni fydd yn arwain at refferendwm ar wledydd sy'n dymuno ymuno â'r UE. Nid yw'r Mesur yn effeithio ar unrhyw Gymwyseddau presennol yr UE, p'un a gawsant eu trosglwyddo yng Nghytuniad Lisbon neu cyn hynny.

## Y GWASANAETH GWEITHREDU ALLANOL EWROPEAIDD (EEAS)

Cynhaliwyd lansiad ffurfiol yr EEAS, a sefydlwyd gan Gytuniad Lisbon, ar 1 Rhagfyr 2010. Mewn araith a roddwyd ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol, cafwyd araith gan yr Uwch Gynrychiolydd Materion Tramor a Pholisi Diogelwch, y Farwnes Ashton, ar y berthynas rhwng yr UD a Tsieina, newid hinsawdd, diddymu tlodi, rheoli argyfyngau a materion gwrthderfysgaeth fel prif flaenoriaethau corfflu diplomyddol newydd yr UE.

## ESTONIA YN YMUNO Â'R EWRO

Ar 1 Ionawr 2011, Estonia oedd yr 17$^{eg}$ aelod i ymuno ag Ardal yr Ewro a'r gyn-wladwriaeth Rwsiaidd gyntaf i fabwysiadu'r arian sengl. Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd gan rai sylwebyddion, mae Estonia wedi datgan bod y wlad wedi trosglwyddo'n esmwyth i'r Ewro ac ni chafwyd unrhyw broblemau mawr. Mae adroddiadau cychwynnol ar wariant defnyddwyr a diddordeb gan fuddsoddwyr tramor wedi bod yn gadarnhaol.

## LLYWYDDIAETH HWNGARI

Dechreuodd Hwngari ar Lywyddiaeth gylchredol chwe mis Cyngor yr Undeb Ewropeaidd am y tro cyntaf ar 1 Ionawr 2011. Hwy yw'r aelod olaf y triawd presennol o lywyddiaethau, yn dilyn Sbaen a Gwlad Belg.

Mae Llywyddiaeth Hwngari wedi datgan y byddant yn canolbwyntio ar bedwar prif faes: twf a chyflogaeth ar gyfer diogelu cyflawniadau cymdeithasol Ewropeaidd; atgyfnerthu Ewrop; Undeb sy'n agosach at ei ddinasyddion; a pholisi ehangu a chymdogaeth. Mae'r agenda wleidyddol hon yn canolbwyntio ar y ffactor ddynol. Bydd y Llywyddiaeth yn canolbwyntio ar ddinasyddion - pobl sy'n ffurfio sail twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol ym mhob mater sy'n ymwneud â materion economaidd a pholisïau cyffredin ar y mater o ehangu.

## EWROP 2020

Ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi tair Menter Flaenllaw derfynol Strategaeth Ewrop 2020.

- **AGENDA AR GYFER SGILIAU A SWYDDI NEWYDD**

Agenda ar gyfer Sgiliau a Swyddi yw un o saith menter flaenllaw Ewrop 2020 a lansiwyd ar 26 Tachwedd 2010. Mae'r UE wedi cytuno ar darged cyfradd cyflogaeth i ferched a dynion, sef 75% ar gyfer y grŵp oedran 20-64 erbyn 2020. Mae'r fenter hon yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol sydd angen gweithredu arnynt er mwyn ategu hyn: marchnadoedd llafur sy'n gweithredu'n

well; gweithlu mwy crefftus; swyddi o ansawdd gwell ac amodau gwaith gwell; a pholisïau cryfach i greu swyddi a galw am weithwyr. Mae'n cyflwyno rhaglen waith a fydd yn sicrhau bod polisïau cyflogaeth a sgiliau'r UE yn helpu i lywio'r broses drosglwyddo i economi werdd, ddeallus ac arloesol.

- **Y LLWYFAN EWROPEAIDD YN ERBYN TLODI AC ALLGÁU CYMDEITHASOL**

Ar 16 Rhagfyr 2010 lansiodd y Pwyllgor fenter flaenllaw olaf ond un Ewrop 2020, y Llwyfan Ewropeaidd yn Erbyn Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol. Mae'r Llwyfan yn ceisio datblygu ar y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol er mwyn meithrin cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol. Ei brif nod fydd cefnogi targed tlodi pennawd yr UE sef codi 20 miliwn o bobl allan o dlodi ac allgau cymdeithasol yn ystod y degawd nesaf. Ymhlith y meysydd a nodwyd o fewn y Llwyfan i weithredu arnynt mae: cyflenwi gweithredoedd ar draws y sbectrwm polisi; gwneud mwy o ddefnydd a defnydd mwy effeithiol o arian yr UE; hyrwyddo arloesedd cymdeithasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth; gweithio mewn partneriaeth a datblygu potensial yr economi gymdeithasol, a gwella'r gwaith o gydgysylltu polisïau ymhlith Aelod-wladwriaethau.

- **EWROP SY'N EFFEITHLON O RAN ADNODDAU**

Ar 26 Ionawr lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd "Ewrop sy'n Effeithlon o Ran Adnoddau", y fenter olaf o saith menter flaenllaw Ewrop 2020 sy'n ceisio creu twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol i Ewrop. Mae Ewrop sy'n Effeithlon o Ran Adnoddau yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer gweithredu mewn nifer o feysydd polisi, gan sefydlu effeithlonrwydd adnoddau fel y brif egwyddor ar gyfer agendâu polisi yn cynnwys newid hinsawdd, ynni, trafnidiaeth, diwydiant, deunyddiau crai, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, bioamrywiaeth a datblygu rhanbarthol. Gwneir hyn er mwyn cynyddu sicrwydd ar gyfer buddsoddi ac arloesedd a sicrhau bod pob polisi perthnasol yn cael eu hystyried mewn dull effeithlon a chytbwys o ran adnoddau.

Bydd mentrau eraill yn gwneud cynigion pendant ar nifer o fentrau penodol yn ystod 2011, yn cynnwys:

1. RHAGLEN MAPIO'R COMISIWN AR GYFER EWROP SY'N EFFEITHLON O RAN ADNODDAU

Bydd y rhaglen mapio hon yn cyflwyno fframwaith ystyrlon o bolisïau a gweithredoedd sydd eu hangen er mwyn symud tuag at economi sy'n effeithlon o ran adnoddau. Y nod yw cynyddu cynhyrchiant adnoddau a datgysylltu twf economaidd drwy ddefnyddio adnoddau, a defnyddio adnoddau o'i effaith amgylcheddol, gwella gallu cystadleuol a hyrwyddo diogelwch cyflenwi ac annibyniaeth adnoddau'r UE. Gallai'r rhaglen mapio gynnwys cynnig ar gyfer targedau cenedlaethol ar y defnydd effeithlon o adnoddau, yn cynnwys ynni.

2. RHAGLEN MAPIO'R COMISIWN AR GYFER ECONOMI CARBON ISEL ERBYN 2050

Mae'r rhaglen mapio'n ceisio cyflawni economi carbon isel erbyn 2050 a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod hanner cyntaf 2011. Bydd yn cyflwyno strategaeth ar gyfer gwireddu amcan yr UE i leihau ei allyriadau o nwyon tŷ gwydr o 80-95% o lefelau 1990 erbyn 2050. Cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad ar-lein yn ystod yr hydref.

## CYFYNGU AR Y DEFNYDD O RAI SYLWEDDAU PERYGLUS MEWN OFFER TRYDANOL AC ELECTRONIG 2008 (Rheoliadau RoHS)

Mae Jill Evans, ASE Cymru, yn aelod o'r Pwyllgor ar yr Amgylchedd, Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Bwyd ac yn Adroddwr ar y Gyfarwyddeb RoHS ar ei newydd wedd. Nod y gyfarwyddeb yw cyfyngu ar y defnydd o sylweddau peryglus mewn offer trydanol ac electronig er mwyn atal gwastraff a diogelu'r amgylchedd.

Mae dros 9 miliwn o dunelli o offer trydanol ac electronig yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys offer mawr ar gyfer y cartref, ac offer TG a thelathrebu. Wrth i'r farchnad hon barhau i dyfu, y farchnad hon hefyd yw'r llif gwastraff sy'n tyfu gyflymaf yn yr UE, a rhagwelir y bydd yn cynyddu i 12.3 miliwn o dunelli erbyn 2020. Mae'n llif gwastraff cymhleth sy'n cynnwys nifer o sylweddau peryglus.

Mae'r Comisiwn yn rhagweld bod y Gyfarwyddeb RoHS wedi arwain at ostyngiad o 100 000 o dunelli o rai metelau trwm a dau grŵp o arafwyr fflamau brominedig rhag cael eu hychwanegu i'r llif gwastraff ac osgoi'r posibilrwydd y gallent gael eu rhyddhau i'r amgylchedd.

Cyflwynodd Jill Evans ASE y gyfarwyddeb ar ei newydd wedd yn ystod dadl yn Strasbwrg ym mis Tachwedd 2010. Mae gan y gyfarwyddeb fethodoleg gliriach yn awr, gyda meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfyngiadau newydd, sy'n ategu REACH ac sy'n annibynnol oddi arnynt[1]. Mae cwmpas y gyfarwyddeb wedi'i ymestyn i gynnwys pob offer trydanol ac electronig o fewn wyth mlynedd, oni fyddant wedi'u heithrio'n benodol.

Mabwysiadwyd testun cyfunol y Gyfarwyddeb yn ystod darlleniad cyntaf rhwng y Cyngor a'r Senedd Ewropeaidd ym mis Rhagfyr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn trafod y dull trosi mwyaf priodol gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn awr.

## DEDDF Y FARCHNAD SENGL

Mabwysiadwyd Deddf y Farchnad Sengl gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 27 Hydref 2010. Mae'n cynnwys 50 o gynigion polisi a fydd yn destun

[1] Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH)

ymgynghoriad cyhoeddus hyd at ddiwedd mis Chwefror 2011. Nod y Ddeddf yw nodi rhestr o weithredoedd blaenoriaeth y mae'r Comisiwn yn gobeithio y gellir cytuno arnynt gyda'r Cyngor a'r Senedd Ewropeaidd erbyn diwedd 2012.

# 5. <u>MATERION RHYNGWLADOL</u>

## UWCHGYNHADLEDD COP16 CONFENSIWN FFRAMWAITH Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR NEWID HINSAWDD, CANCUN - Rhagfyr 2010

Gwahoddwyd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gan Chris Huhne, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, i ymuno â chynrychiolwyr y DU yn uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar newid hinsawdd yn Cancun i gynrychioli buddiannau Cymru.

Yn ystod ei hymweliad yn ystod wythnos olaf y trafodaethau, ceisiodd y Gweinidog:

- hyrwyddo rôl llywodraethau is-genedlaethol wrth fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd;
- hyrwyddo Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru; rhannu arfer da gyda llywodraethau rhanbarthol eraill; a dysgu gan eraill; a
- gwella cysylltiadau Llywodraeth y Cynulliad gyda rhwydweithiau allweddol, llywodraethau rhanbarthol ac asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig.

Cafodd cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad i'r trafodaethau ei ategu nid yn unig gan ein Strategaeth Newid Hinsawdd a'r ymrwymiad cadarn a wnaed gennym i leihau allyriadau, ond hefyd gan ddatganiad o fwriad Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru ar gyfer Cancun. Roedd hyn yn galw ar y partïon yn y trafodaethau i geisio sicrhau cynnydd yn y meysydd hynny lle'r oedd yn bosibl cael cytundeb er mwyn helpu i ail-adeiladu hyder ym mhroses drafod y Cenhedloedd Unedig. Wrth gyfleu'r neges hon, roedd y Gweinidog yn awyddus i amlygu'r cyfleoedd economaidd newydd a oedd wedi dod i'r amlwg yn sgîl y bygythiad o newid hinsawdd drwy drosi i economi carbon isel a chreu swyddi gwyrdd.

Roedd llywodraethau is-genedlaethol, fel ein llywodraeth ni, wedi'u cynrychioli'n dda yn yr uwchgynhadledd, gan ddangos bod yr angen am ymdrechion unedig ar newid hinsawdd eisoes yn derbyn cydnabyddiaeth gyffredinol. Yn wir, mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif y bydd rhwng 50 a 80% o'r gweithredoedd sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn cael eu cyflawni o dan lefel aelod-wladwriaeth.

Tra'r oedd yn Cancun, cyfarfu'r Gweinidog hefyd â Linda McAvan, ASE Swydd Efrog a Humber, sy'n eistedd ar Bwyllgorau'r Amgylchedd a Datblygu'r Senedd

Ewropeaidd.  Maent wedi cytuno i rannu mwy o wybodaeth ar sefyllfa Cymru ar faterion amgylcheddol a newid hinsawdd er mwyn i'r rhain gael eu hadlewyrchu'n well yn nhrafodaethau'r Senedd Ewropeaidd.

## GWEITHGAREDDAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYSYLLTIADAU'R LLYWODRAETH Â GWLEDYDD/RHANBARTHAU ERAILL

Yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 16 Rhagfyr cytunais i ddarparu adroddiadau rheolaidd ar gysylltiadau gweithredol y Llywodraeth gyda gwledydd a rhanbarthau eraill.

Er bod gan Gymru nifer o gysylltiadau dwyochrog sydd wedi'u cydnabod mewn Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol, gyda rhai ohonynt yn dyddio yn ôl i'r cyfnod cyn datganoli, nid yw pob un o'r cysylltiadau hyn yn weithredol ar unrhyw adeg benodol.  Dros amser, gallai'r ysgogiad gwreiddiol dros lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bylu, a bydd y berthynas yn datblygu i fod yn un o barch gan y ddwy ochr, gan lunio ein hymateb i amgylchiadau a chyfleoedd wrth iddynt godi.

Mae'r sail ar gyfer rhai Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn ddiwylliannol a hanesyddol:

Mae Cymru a **Chubut (Patagonia)** yn enghraifft o hyn.  Mae'r berthynas ffurfiol rhwng y ddwy Lywodraeth yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth wreiddiol a lofnodwyd yn 2001 ac a ail-ategwyd yn ystod ymweliad Llywodraethwr y dalaith, Mario Das Neves, â Chymru yn 2007. Mae'r berthynas wedi canolbwyntio'n bennaf ar faes diwylliant ac iaith gyda phrosiect Addysgu'r Iaith Gymraeg yn elfen amlwg yn y berthynas.

Enghraifft arall yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a **New South Wales, Awstralia.**  Sefydlwyd perthynas ffurfiol gyda thalaith New South wales (NSW) ym 1995.  Mae'r cyswllt wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion addysg.  Nid yw'n berthynas weithredol iawn ar hyn o bryd ond mae'r cyswllt hanesyddol yn golygu bod y cyswllt yn parhau i fod yn ben agored.

Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol rhwng Cymru a **Llydaw** yn 2004 i gadarnhau'r cysylltiadau diwylliannol a hanesyddol niferus rhwng y ddau Ranbarth.  Crëwyd Cynllun Gweithredi i ategu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chafodd ei lofnodi yn 2006.  Mae'r cysylltiadau diwylliannol yn helaeth, er enghraifft, ceir 45 o gysylltiadau gefeillio gyda rhanbarth Brittany/Pays de La Loire yn unig (er nad yw gefeillio o fewn cylch gwaith Llywodraeth y Cynulliad).  Mae nifer o sefydliadau iaith Gymraeg yn mwynhau perthnasau gwaith agos gyda'u cyfoedion yn Llydaw.  Cymru oedd y wlad dan sylw yng Ngŵyl InterCeltique Lorient yn 2002 a 2008.  Bydd y Llywydd Le Drian yn ymweld â Chymru ar 15 Chwefror 2011 a bydd yn annerch y Pwyllgor hwn.

Mae'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda **Catalunya, Sbaen** a **Baden Württemberg, yr Almaen** yn deillio o statws Cymru fel gwlad gyswllt yn y Four Motors, sy'n deillio o'r cyfnod cyn datganoli.

Mae'r berthynas hon â Chatalunya wedi amrywio dros y blynyddoedd ers llofnodi Protocol Cydweithrediad pen agored yn 2001. Mae diwylliant, addysg a diddordeb mewn ieithoedd lleiafrifol wedi bod yn nodweddion amlwg yn y berthynas. Ers i Lywodraeth Catalunya agor swyddfa yn Llundain ddwy flynedd yn ôl mae'r ymgysylltiad ar lefel swyddogol wedi cynyddu a chynhaliwyd derbyniad Gŵyl Ddewi ar y cyd yn Barcelona yn 2010.

Ar y llaw arall, nid yw'r berthynas â Baden Württemberg wedi'i hail-gadarnhau'n ffurfiol gan y Llywodraeth yn dilyn datganoli ac ni welwyd llawer o weithgaredd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac eithrio rhywfaint o ddiddordeb addysgol a gweithgaredd rhwng trefi sydd wedi'u gefeillio.

**Silesia, Gwlad Pwyl a Latfia** – Yn yr adroddiad a gafodd ei atodi i'm llythyr i'r Pwyllgor ar 16 Rhagfyr, rhoddais fanylion am y berthynas rhwng Cymru a Silesia a Chymru a Latfia. Ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau pellach ers fy llythyr.

**Chongqing, Tsieina** - y cyswllt hwn yw'r un mwyaf gweithgar ymhlith Memoranda Cyd-ddealltwriaeth Cymru. Ers fy llythyr i'r Pwyllgor ar 16 Rhagfyr, bu i mi agor yr arddangosfa Cerfiadau Cerrig Dazu yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar 24 Ionawr, fel y disgrifiwyd yn adran Gweithgareddau Rhyngwladol yr adroddiad hwn. Rydym hefyd wedi croesawu ymwelwyr i Gymru o Swyddfa Ddiwylliant Chongqing, Prifysgol Jiaotong a Phrifysgol Technoleg Chongqing. Rydym hefyd wedi adleoli ein staff yn Chongqing i swyddfa newydd.

Mae paratoadau'n mynd rhagddynt ar gyfer Wythnos Cymru yn Chongqing 2011 (28 Chwefror – 6 Mawrth) a fydd yn cynnwys: derbyniad ar gyfer cysylltiadau pwysig; digwyddiad addysgol arall ar y cyd rhwng sefydliadau o Gymru a Chongqing; presenoldeb o Gymru mewn Arddangosfa Addysg Uwch blaenllaw, yn cynnwys cyfranogiad gan nifer o Sefydliadau Cymreig; Sioe Deithiol carbon isel Cymru; a Pherfformiad ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Ysgol y Celfyddydau yn Chongqing.

Mae Canolfan Ddiwylliant Chongqing hefyd yn bwriadu cynnal Wythnos Chongqing yng Nghymru yn ystod 2011.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog**